OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 351 (Cy. 103)

# CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

## Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *19 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *21 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1 o Ddeddf Gwenyn 1980(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021 a daw i rym ar 21 Ebrill 2021.

### Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

**2.** Ar ôl erthygl 2 o Orchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006(**2**) mewnosoder—

> "**Adrodd am widdon Varroa (Varroosis)**
>
> **2A.** Rhaid i unrhyw berchennog neu'r person sy'n gyfrifol am gwch sy'n gwybod neu sy'n amau bod unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn Varroa yn bresennol yn y cwch adrodd am y ffaith honno i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

(**1**) 1980 p. 12. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 1, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae'r cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2006/1710 (Cy. 172), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/226 (Cy. 44).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1710) (Cy. 172) ("Gorchymyn 2006") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli plâu a chlefydau sy'n effeithio ar wenyn.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2A yng Ngorchymyn 2006 sy'n ymwneud ag adrodd am bresenoldeb gwiddon Varroa. Mae erthygl 2A yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n berchen ar gwch neu sy'n gyfrifol am gwch adrodd am bresenoldeb unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn Varroa yn y cwch hwnnw i Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.